OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3251 (Cy.295)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *5 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ionawr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 23(2)(a) a (9), 59(2), 79C a 104(4) o Ddeddf Plant 1989 a pharagraff 12 o Atodlen 2 iddi(**1**); adrannau 14(1)(d), 16, 22, 25, 33, 42(1), 48(1), 50 a 118(1) a (5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**2**); ac adrannau 2(6)(b), 9(1) a (3), 10 a 140(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**3**):

(**1**) 1989 p.41: mewnosodwyd adran 79C gan adran 79 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14). Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddi Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddi.

(**2**) 2000 p.14.

(**3**) 2002 p.38.